**Adroddiad – Astudiaeth Achos o safbwynt myfyrwyr ô-16**

**Sut fyddai profiad person ifanc yma yn Ysgol Dyffryn Nantlle yn newid o ganlyniad i gyflwyno'r drefn cyd-weithio ôl-16 ffurfiol**

Wrth gwrs, mae'n amhosibl rhagweld union effaith cyflwyno trefn cyd-weithio ffurfiol ar unigolion fydd yn astudio cyrsiau ôl-16 yma yn yr ysgol yn y dyfodol. Ond, mae profiadau'r myfyrwyr hynny sydd ar hyn o bryd yn astudio cyrsiau ble mae cydweithio rhwng sefydliadau yn bodoli eisoes, yn creu darlun o brofiadau ellir ei gymharu â'r profiadau traddodiadol hynny gaiff myfyrwyr sy'n aros ar y safle i astudio pob cwrs.

Mae astudio cwrs cydweithredol yn medru golygu un o ddwy sefyllfa:

- Teithio i safle arall sydd oddi-ar safle Ysgol Dyffryn Nantlle i ymuno â myfyrwyr o safle arall neu hyd yn oed o sawl safle arall.
- Aros ar safle Ysgol Dyffryn Nantlle i astudio cwrs ble mae myfyrwyr o safle neu o safleoedd eraill yn ymuno â'r dosbarth.

Nid oes amheuaeth fod y ddwy sefyllfa yma, yn medru cynnig profiadau gwahanol iawn i fyrwyr.

Isod, ceir sylwadau gan fyfyrwyr yr ysgol sydd ar hyn o bryd yn astudio cyrsiau cydweithredol ym Mlwyddyn 12 ers mis Medi 2012:

**Myfyrwraig 1** – Mae'n astudio 3 phwnc UG, gan gynnwys Seicoleg ar safle Ysgol Syr Hugh Owen (teithio 2 waith yr wythnos yno) ac Astudiaethau Crefyddol yn Ysgol Brynrefail (teithio 2 waith yr wythnos yno).

Profiadau cadarnhaol:

- Cyfarfod a gwneud ffrindiau newydd
- Cynyddu annibyniaeth
- Ehangu gorwelion
- Hwb i'r hyder
- Teimlad o ryddid
- Cystadleuaeth gyfeillgar ymysg myfyrwyr
- Profi fy ngallu i weithio mewn amgylchedd anghyfarwydd

Profiadau negyddol:

- Y tacsi ddim bob amser yn brydlon
- Diffyg cyswllt gyda'r athro
- Teimlo fy mod yn gorfod rhuthro o wersi neu egwyl i ddal y tacsi

- Diwrnodau hyfforddiant athrawon ar wahanol ddyddiadau mewn gwahanol ysgolion sy'n medru arwain at golli gwersi

**Myfyriwr 2** – Mae'n astudio 2 bwnc UG ar safle'r ysgol a Pheirianneg BTEC Lefel 3 ar safle Coleg Menai ym Mangor (teithio 1 waith yr wythnos yno).

Profiadau cadarnhaol:

- Cael cwrdd â phobl newydd
- Gwell profiad wrth fynd i amgylchedd newydd
- Profiad gwahanol wrth gael darlithoedd fel sydd mewn prifysgolion
- Dim athrawon yn ein dysgu ond darlithwyr
- Cael profiadau gwahanol i'r hyn gaf yn yr ysgol

Profiadau negyddol:

- Fi yw'r unig fyfyriwr o Ysgol Dyffryn Nantlle sydd ar y cwrs ac felly roeddwn yng nghanol pobl ddiarth ar y cychwyn, oedd yn brofiad eithaf arswydus

**Myfyrwraig 3** – Mae'n astudio 3 phwnc UG, gan gynnwys Astudiaethau Crefyddol yn Ysgol Brynrefail (teithio 2 waith yr wythnos yno). Mae'n ddisgybl newydd i'r ysgol eleni, wrth iddi ddod o du allan i'r dalgylch.

Profiadau cadarnhaol:

- Teimlaf fy mod wedi derbyn croeso cynnes gan bawb (disgyblion ac athrawon) yn Ysgol Dyffryn Nantlle
- Wedi cael amrywiaeth o brofiadau yn fy amser byr yn yr ysgol, megis Eisteddfod yr ysgol, taith i Gaerdydd a chynorthwyo i drefnu Ffair Hydref
- Wedi derbyn croeso mawr yn Ysgol Brynrefail hefyd. Ar ein diwrnod cyntaf, roedd ein hathro yn disgwyl amdanom a chawsom ein dangos o gwmpas yr ysgol. Gwnaeth hyn i mi deimlo'n gartrefol a chyfforddus ac rwyf yn mwynhau fy ngwersi yno yn fawr iawn.
- Mae'r ddwy ysgol yn wahanol iawn i fy nghyn-ysgol ond rwyf erbyn hyn wedi setlo'n dda

**Myfyrwraig 4** – Mae'n astudio 3 phwnc UG, gan gynnwys Daearyddiaeth yma yn Ysgol Dyffryn Nantlle, sy'n gwrs cydweithredol, gyda 3 disgybl o Ysgol Brynrefail yn ymuno â'r dosbarth gynhelir ddwy waith yr wythnos.

Profiadau cadarnhaol:

- Wedi elwa'n bersonol o wneud ffrindiau newydd a rhoi hwb i'm hyder
- Gosodwyd tasg gan yr athro i ni baratoi a rhoi cyflwyniad 8 munud o hyd i weddill y dosbarth. Wrth fod aelodau newydd yn y dosbarth, roedd hon yn

dasg heriol gan nad oeddwn yn gwbl gyfforddus yn siarad o flaen pobl ddiarth. Serch hynny, wrth wneud y cyflwyniad, mae hyder yn cael ei fagu, ac i mi'n bersonol, mae fy hyder o allu siarad o flaen dieithriaid wedi cael hwb sylweddol. Teimlaf ei bod hi'n sgil hanfodol bwysig ei mheithrin, gan ei bod mor allweddol i fy nyfodol.

**Myfyriwr 5** – Mae'n astudio 3 phwnc UG, gan gynnwys Electroneg ar safle Cynnal yn Llangefni (teithio un waith yr wythnos yno).

Profiadau cadarnhaol:

- Rwyf o'r farn ei fod o'n beth da fod ysgolion a cholegau yn cydweithio oherwydd fod ysgolion yn medru cynnig pynciau gwahanol i'r hyn fyddai ar gael ganddynt fel arall
- Mae cyfle i mi ddefnyddio offer sydd ddim ar gael yn yr ysgol
- Mae cyfle i mi gyfarfod pobl newydd

Profiadau negyddol:

- Mae'r daith un ffordd i Llangefni yn cymryd 45 munud ac felly byddaf yn teithio am 1 ½ awr yno ac yn ôl bob dydd Llun